# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

## RHAN 3

HYBU MYNEDIAD AT LYWODRAETH LEOL

## PENNOD 5

ADRODDIADAU BLYNYDDOL GAN GYNGHORAU CYMUNED

### 52 Adroddiadau blynyddol gan gynghorau cymuned

(1) Cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, rhaid i gyngor cymuned lunio a chyhoeddi adroddiad (“adroddiad blynyddol”) ynglŷn â blaenoriaethau, gweithgareddau a chyflawniadau’r cyngor yn ystod y flwyddyn honno.

(2) Rhaid i gyngor cymuned roi sylw i unrhyw ganllawiau ynglŷn ag adroddiadau blynyddol a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

(3) Nid yw adran 101 o Ddeddf 1972 (trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau gan awdurdodau lleol) yn gymwys i swyddogaeth cyngor cymuned o benderfynu ar gynnwys adroddiad blynyddol.